

os oedd y ferch yn gofyn amdano. Cychwynodd y gwyllo heb wastraffu rhagor o amser ar y diwrnod y cyrhaeddodd y nyrsus ar Rhagyr 9.

Yn ystod y dyddiau cyntaf 'roedd cyflwr Sarah yn foddhaol eithr erbyn 15 Rhagfyr gwelwyd arwyddion o newid ynddi, ond yn ôl un o'r meddygon nid oedd mewn perygl. Yn ystod y diwrnod nesaf galwodd y Dr D. H. Davies i'w gweld a'i chael yn wannach o lawer. Bu'n ddigon pryderus yn ei chylch i sôn am roddi'r gorau i'r gwyllo ond dywedodd bod Evan Jacob wedi gwrthod ystyried gwneud hynny. A'r dydd canlynol, 17 Rhagfyr, a'r rhwyf mewn rhagor o wendid fe wrthododd Evan Jacob unwaith eto i gynnig rhywbeth ei hun iddi ond am y tro cyntaf ildiodd ddigon i ganiatáu Dr Davies i wneud. Erbyn hynny 'roedd yn rhy hwyr ac am ychydig wedi 3 o'r gloch a phawb, yn enwedig y nyrsus oedd wedi bod yn gwyllo a'r meddygon fu'n eu goruchwyllo, yn gwybod nad oedd Sarah Jacob wedi cael bwyd am wyth diwrnod, bu farw'r ferch yn ddeuddeg mlwydd oed.

Am ddau o'r gloch drannoeth cyfarfu'r pwyllgor i glywed adroddiad y gwyllywr a phasiwyd pleidlais o ddiolch i'r nyrsus am eu gwasanaeth! 'Roedd ynt yn sicr yn haeddu pleidlais o gydymdeimlad os nad ymddiheuriad am eu gorfodi i wynebu'r fath brofiad, oblegid i fod yn deg â'r nyrsus rhaid ystyried y ddisgyblaeth lem oedd ynghlwm â'u galwedigaeth a'r ufudd-dod i orchymnion meddygon a ddisgwyliid ganddynt.

Agorwyd y trengholiad ar 21 Rhagfyr. Yn ôl yr adroddiad o'r archwiliad ar gorf Sarah Jacob ni welwyd unrhyw arwydd o afiechyd ond 'roedd y coluddion yn cynnwys tua hanner pwys o weddillion bwyd a barnai'r archwilywyr fod y cyfryw, yn ôl ei olwg tua pythefnos oed. Yn y cyswllt hwn 'roedd adroddiad y gwyllywr wedi crybwyll yn gynnar yn y gwyllo bod coban y ferch yn wlyb drwyddi dair gwaith gydag iwrin, ac amheid bod Sarah wedi yfed o botel dŵr poeth ac o botel persawr yn ystod yr un cyfnod. Peth arall ddatguddiwyd gan yr archwiliad ar ôl marwolaeth, ac na welwyd pan archwiliwyd Sarah 'yn drwyadl' cyn dechrau'r ympryd, oedd pant yn ei chesail chwth, pant oedd yn ddigon mawr i guddio potel fach. Marwolaeth trwy ddiffyg ymborth oedd canlyniad yr archwiliad terfynol.

Ystyriwyd yr achos gan y cwrner. 'Roedd y gweddillion bwyd yng nghorff Sarah Jacob yn arwydd clir, meddai, mai ffug oedd yr honiadau ynglŷn â'i hymprydio. Ni welai fai ar y meddygon oblegid twyllwyd

hwynt gan y tad, a'i gyfrifoldeb ef yn unig oedd bod ei ferch wedi llwgu i farwolaeth. Ni roddwyd unrhyw amser i ystyried y cytundeb arwyddwyd gan Evan Jacob cyn i'r gwyllo ddechrau a bu chwarter awr yn ddiagon i'r rheithgor farnu mai ef, a dim ond ef, oedd y drwg-weithredwr ac yn euog o ddynladdiad.

Ar ôl cyhoeddi'r rheithfarn daeth beirniadaethau o bob cyfeiriad. Yn eu tro galwyd i gyfiri y meddygon, y nyrsus, y pwyllgor, awdurdodau Ysbyty Guy, y rhieni, a Sarah Jacob ei hun ac awgrymwyd ymchwiliad trylwyr i'r holl achos gan y Swyddfa Gartref. Ond y cam nesaf a benderfynwyd arno oedd yr un arferol a chyflwynwyd y rheithfarn i ystyriaeth swyddogion cyfreithiol y Goron.

'Roedd y pwyllgor wnaeth y nyrsus eisoes wedi dechrau pryderu am y posibilrwydd y gallasant wynebu achos o gynllwynio ac y mae'n ymddangos fod hynny wedi bod yn bosiblwydd. Gyda mesur helaeth o ryddhad y dealodd y gwŷr hynny nad oeddent am gael eu galw i gyfiri, ond mae'n glir bod gwŷr y Goron yn ystyried mai tra arwynebol fu'r trengholiad.

Penderfynodd y Goron wysio'r pump meddyg (yn cynnwys Dr D. H. Davies) a gytunodd i oruchwyllo'r gwyllo gan y nyrsus, ynghyd â'r tad a'r fam i ymddangos o flaen Llys Ynadon Llanfihangel-ar-Arth i ateb cyhuddiad o ladd Sarah Jacob yn anghyfreithlon.

Agorwyd y gwrandawriad ar 28 Chwefror 1870. Ar y fainc roedd y Cynol W. P. Lewes, Llysenydd; E. C. L. Fitzwilliams, Adpar; A. H. Jones, Pen-yr-allt. Amddiffynwyd Evan a Hannah Jacob gan Lewis Bishop, cyfreithiwr o Landeilo. Ymddengys i hwnnw fethu gwneud ei waith cartref oherwydd gallai fod wedi herio hawl dau o'r ynadon i ystyried yr achos.

Ychydig llai na blwyddyn ynghynt 'roedd Fitzwilliams a Lewes wedi ystyried yr achos ddygwyd ymlaen gan Evan Jacob yn erbyn y meddyg o Lanymddyfri, y Dr Pearson Hughes, yn ei gyhuddo o ymosod yn gas ar Sarah Jacob wrth ei harchwilio yn nechrau Mawrth 1869. Tafliwyd yr achos allan gan yr ynadon a bu Fitzwilliams, yr hwn a honnodd iddo dderbyn peth hyfforddiant meddygol ei hun, yn doethinebu'n gyhoeddus gan ddangos yn o glir beth oedd o'n feddwl o ympryd y ferch. Mae'n debyg bod rhagfarn Fitzwilliams wedi gwreiddio mor ddwfn fel nad oedd modd iddo gynnal gwrandawriad teg, ac yr oedd cysylltiad Lewes â'r achos hwnnw yn awgrymu ei anghymwysra yntau hefyd. Pe

bai swyddogion cyfreithiol y Goron yn gwybod am yr achos hwnnw tybed a fyddent yn fodlon i'r ddau ynad gael ystyried yr achos traddodi?

Yn y gwrandawriad atebolrwydd y meddygon a gafodd brif sylw'r fainc. 'Roedd gan y pump gyfreithwyr i'w hamddiffyn yn y llys ond nid oedd llawer o'u hangen oblegid yr oedd yn amlwg iawn bod cadeirydd y fainc, E. C. L. Fitzwilliams, yn elyniaethus iawn i'r syniad o orfodi'r meddygon i wynebu cyhuddiadau. Trwy fwyafrif o ddau yn erbyn un penderfynodd y fainc nad oedd y meddygon i ymddangos o flaen y Frawdlys. Ni wyddys yn union pa un o'r tri ynad oedd yn anghytuno ond gellir bod yn sicr mai Fitzwilliams oedd y prif lais o blaid rhyddhau'r meddygon ac y mae'n dra thebyg mai Lewes oedd ei gefnogwr. Mae'n glir na roddwyd unrhyw amser i'r posibilrwydd y gellid canfod tystiolaeth o blaid Evan a Hannah Jacob. Y nhw oedd y bychod dihangol yn yr achos arbennig hwn ac nid oedd gan eu cyfreithwyr obaith i ymladd drostynt gan mor gryf oedd rhagfarn cadeirydd yr ynadon. Y rhieni, felly, oedd yr unig rai a yrrwyd i sefyll y prawf terfynol yn y Frawdlys yng Nghaerfyrddin.

Cynhaliwyd hwnnw yng nghanol mis Gorffennaf 1870. Yno cafwyd hwynt yn euog. Awgrymodd y rheithgor i'r barnwr ddangos trugaredd i'r wraig am ei bod, meddent, o dan fawd ei gŵr. Nid oedd, y mae'n glir, yn gweld pethau'r un ffordd. Rhwng y ddau, meddai, 'roedd trosedd y fam yn fwy anodd i'w hamddiffyn, eithr ar ôl dweud hynny fe dderbyniodd yr argymhelliad a dyfarnodd y tad i flwyddyn o garchar a'r fam i chwe mis. Tybed a wyddai fod Hannah Jacob yn feichiog ar y pryd ac yn disgwyl genedigaeth plentyn ymhen tua saith mis?

Tybed, hefyd, fod y barnwr yn ddistaw bach o'r fam nad y rhieni yn unig a ddylasai fod o'i flaen, oblegid wrth feddwl 'roedd blwyddyn o garchar yn ddedfryd ysgafn dros ben mewn achos o ddynladdiad mor gyhoeddus gyda'i holl oblygiadau.

Eithr a oedd hi'n iawn i orfodi'r rhieni i wynebu achos o ddynladdiad o gwbwl? Pe bai'r gwyllo tyngedfennol heb gael ei drefnu ni fyddai Sarah Jacob wedi marw o newyn! Mae'n wir bod Evan Jacob wedi gomedd rhoi dim ymborth i'w ferch tan megis y funud olaf eithr onid oedd y meddygon ar fai am fethu gweithredu yn ôl llythren y cytundeb? Hyd ddiwedd y 14 diwrnod cyfrifoldeb y panel meddygon oedd terfynu'r gwyllo ond llwyddwyd i feio'r rhieni er bod y *British Medical Journal* wedi cyhoeddi fod llythyr wedi cael ei anfon at y meddygon bob dydd o'r ympryd i'w rhybuddio

am y peryglon ac i ddiogelu bywyd y ferch ar bob cyfrif.

Barn pawb sydd wedi bod yn ystyried yr hanes yw fod y rhieni wedi cael colledion enbyd, wedi gwerthu popeth oedd ganddynt er mwyn talu am eu hamddiffyn, ac wedi gorfod byw efo'r cywilydd am weddill eu bywydd. Gellir derbyn fod cost yr amddiffyniad wedi bod yn uchel ond mae'r gwir am y gweddill yn dra gwahanol.

Mae'n glir, o'r hyn a ddigwyddodd wedyn, nad oedd y ddedfryd yn ddigon pendant i argyhoeddi pawb fod yr achos y gorfodwyd i Evan a Hannah Jacob ei wynebu yn un cyfiawn. Pa ddehongliad rhesymol arall sydd i'r ffaith bod y teulu wedi cael eu derbyn yn ôl gan y gymdogaeth pan ryddhawyd y rhieni o'r carchar a hynny gyda bendith prif dirfeddianwyr yr ardal, teulu Plas Maesyrcrugiau. Cawsant gartref ganddynt ym mhentref New Inn a 30 erw o dir i amaethu. Buont yno am tua deng mlynedd cyn symud i fferm arall yn y plwyf.

'Roedd John Jones, penteulu Maesyrcrugiau, yn aelod o'r pwyllgor a drefnodd y gwyllo cyntaf ym mis Mawrth 1868, ac y mae'n hawdd credu, o dan yr amgylchiadau, fod ganddo gydymdeimlad mawr â dioddefaint y teulu; ond hwyrach fod pwysau o gyfeiriad arall ar ei ysgwyddau? Wyddom ni ddim pa bryd y dechreuodd y garwriaeth ond yn 1875 bu priodas rhwng un o ferched John Jones a Dr D. H. Davies!

Ymhlith cymdogion teulu Jacob yn New Inn roedd rhai gwŷr a oedd wedi bod yn gysylltiedig â'r digwyddiadau. Fel, er enghraifft, David Phillips, Pantglas, aelod arall o'r pwyllgor drefnodd y gwyllo cyntaf. 'Roedd ef gyda thri pentrefwr arall — Thomas Jones, Blossom Lodge; Evan Jones, gof; Evan Evans, Glandŵr — ymhlith aelodau'r rheithgor a basiodd reithfarn yn y trengholiad mai Evan Jacob oedd yn gyfrifol am farwolaeth ei ferch. A fuont, tybed, yn ddedfryd gyda'i gilydd pan ymgartrefodd y teulu yn y pentref?

Mae hanes yr achos yn llawn o droeon diddorol a dim un ohonynt yn fwy diddorol na'r datblygiad nesaf. 'Roedd gan deulu plas Maesyrcrugiau dair merch. Gwelwyd eisoes fod un wedi priod Dr D. H. Davies. Fe briododd un arall Syr Richard Mansel. A phwy, meddech chi, oedd ail ŵr y drydedd ferch ond Evan, brawd Sarah Jacob! Yr oedd John Jones yn ei fedd pan briodwyd hwynt yn 1882 ond 'roedd mam y ferch yn fyw ac fe gawsant gartrefu yn y New Inn Cottage, tŷ mwyaf pentref New Inn lle bu teulu Maesyrcrugiau ar brydiau yn ymgartrefu eu hunain.

Rhydd y ffeithiau uchod